Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Iau, 27 Hydref 2022

PRESENNOL: Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Ann Bowen Morgan, Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, John Roberts a Carl Worrall.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies a Rhodri Evans.

AELODAU CABINET YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Alun Williams.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd; Heddwyn Evans, Rheolwr Iechyd Yr Amgylchedd; Elis Gwyn, Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd; Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am - 12.00pm)

1 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Mark Strong am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 Cyflwyno'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol a ddatblygwyd gan Grwp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Eglurodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet dros Gydol Oed a Llesiant) fod y Strategaeth Dementia Ranbarthol wedi'i datblygu gan Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn dod â sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol at ei gilydd gyda'r cylch gwaith o integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chymorth yn y rhanbarth. Roedd cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei reoli drwy'r Grŵp Llywio Dementia a byddai'n allweddol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Strategaeth. Nododd Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a

gyflwynwyd yn ddiweddar yn y Cabinet fod cynnydd yn nifer y bobl 80+ oed oherwydd bod y genhedlaeth a aned ar ôl yr ail ryfel byd yn cyrraedd yr oedran hwn ac felly byddai'r strategaeth hon yn allweddol wrth symud ymlaen. Rhoddwyd trosolwg o Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i'r pwyllgor, gan gyfeirio at y ddarpariaeth ar hyn o bryd, arferion gorau, adborth o gyfweliadau strwythuredig â rhanddeiliaid a gofalwyr a'r dull o weithredu'r llwybr llesiant dementia.

Cyfeiriodd Donna Pritchard at y Camau Nesaf o safbwynt rhanbarthol a sirol. Yn rhanbarthol, roedd 6 ffrwd waith wedi'u nodi a oedd yn cynnwys Ymgysylltu â'r Gymuned, Ysbytai a Hyfforddiant a Recriwtio. Roedd cynrychiolaeth o'r awdurdod lleol ar bob ffrwd waith. Nodwyd y byddai cysylltwyr llesiant yn gweithio yn y gymuned ac yn gweithio'n agos gyda Phorth Cymorth Cynnar. Roedd yr awdurdod lleol wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymgynghorwyr i gefnogi datblygu cynllun i gyflawni'r canlyniadau allweddol a nodir yn y strategaeth.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Donna Pritchard. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Croesawodd yr aelodau'r papur gan nodi ei bod yn allweddol sicrhau bod aelodau'r gymuned yn cael y gofal gorau.
- O ystyried yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd, codwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r strategaeth yn cael ei gweithredu. Nodwyd bod mapio gwasanaethau'n fanwl yn hanfodol i ddeall pa ddarpariaeth sydd eisoes yn ei lle yn y sir ac a ydynt yn parhau i fod yn addas i'r diben. Roedd ffocws rhanbarthol ar hyn o bryd, ond roedd yr awdurdod lleol yn y broses o ddatblygu manyleb gwasanaeth, a fyddai'n cael ei chwblhau erbyn 31.03.23 gobeithio. Yn dilyn hyn, byddai'r gwaith yn gallu symud ymlaen ar lefel sirol.
- Teimlai'r aelodau'n gryf fod canolfannau dydd yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol gan Covid-19 yn achubiaeth i bobl a oedd yn gofalu am anwyliaid. Roedd diffyg deunyddiau wedi effeithio ar waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghanolfan Padarn, Canolfan Meugan a Hafod. Ar hyn o bryd, nid oedd amserlen i ail-agor yr adeiladau. Rhoddwyd sicrwydd bod pawb sy'n cael cymorth gan staff y canolfannau yn parhau i gael cymorth.
- Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud ag a oedd digon o leoedd yng nghartrefi gofal preswyl y sir ar gyfer gofal dementia a gofal seibiant, nodwyd bod cartrefi yn rheoli pobl ag anghenion llawer mwy cymhleth nag yn y gorffennol. Roedd gwasanaethau cofleidiol yn cael eu datblygu i gefnogi pobl i fyw gartref ac roedd adain 6 gwely wedi'i neilltuo ar gyfer gofal dementia yn y broses o gael ei datblygu yn Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan. Yn dibynnu ar ei llwyddiant, gobeithir datblygu adenydd tebyg mewn cartrefi eraill yn y sir. Nyrsio'r henoed bregus eu meddwl oedd yr her fwyaf ac roedd cyfleoedd i ddatblygu hyn yn cael eu hystyried.
- Mynegwyd pryderon nad oedd gofal seibiant a chanolfannau dydd ar gael yn lleol i deuluoedd sy'n golygu bod pobl yn teithio ymhellach i ffwrdd ac yn treulio mwy o amser ar fysiau yn hytrach nag mewn gwasanaethau dydd. Roedd trafnidiaeth yn her yng Ngheredigion oherwydd ei natur

wledig, ond y nod oedd gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl. Awgrymwyd defnyddio cyfleusterau cymunedol ac adnoddau cyfredol.

- Amlygwyd pwysigrwydd sicrhau bod cleifion â dementia yn cael cymorth yn eu hiaith gyntaf.
- O ran staffio, roedd anawsterau recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yn genedlaethol, ac felly byddai angen ystyried y maes hwn. Byddai rhaglen hyfforddi dementia yn cael ei datblygu ar gyfer staff sy'n rhoi cymorth i bobl â dementia.
- Roedd adolygiad helaeth o'r modd yr oedd gwasanaethau gan gynnwys canolfannau dydd a darpariaeth gofal preswyl yn cael eu darparu'n gyffredinol yng Ngheredigion i fod i ddechrau, a fyddai'n rhoi llwyfan ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth a'r argymhellion a ganlyn i'r Cabinet cyn eu cymeradwyo:

1. Ystyriwyd pwysigrwydd sicrhau dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau wrth ddarparu gwasanaethau
2. Defnyddio adnoddau cyfredol gan gynnwys adeiladau
3. Trafnidiaeth addas a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir mor lleol â phosibl
4. Pwysigrwydd canolfannau dydd sydd ar gael yn lleol i ddefnyddwyr gwasanaethau

4 ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL CHWARTER 4 2021 – 2022

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Lles) adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2021/2022. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter;

mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Elizabeth Upcott a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Nid oedd darpariaeth breswyl mamau a babanod yn y sir ac felly os oedd angen asesiad, roedd yn rhaid iddynt fynd allan o'r sir. Yn ogystal, roedd rhai lleoliadau y tu allan i'r sir oherwydd lleoliadau gofalwyr maeth tra bod eraill oherwydd lleoliadau arbenigol nad oeddent ar gael yn y sir.
- Roedd proses i'w dilyn pan fynegodd y cyhoedd ddiddordeb mewn dod yn ofalwyr maeth a oedd yn cynnwys asesiadau a chyfweliadau a allai gymryd hyd at chwe mis. Roedd ymgyrchoedd recriwtio parhaus yn genedlaethol oherwydd prinder gofalwyr maeth. Roedd gofalwyr maeth yn gweithio naill ai i awdurdodau lleol neu i asiantaethau.
- Cyfeiriwyd at iaith y lleoliad ac anghenion iaith gyntaf y plentyn a nodwyd ar dudalen 6 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol.
- Nodwyd bod cost lleoliadau y tu allan i'r sir yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion plant a phobl ifanc. Gallai lleoliadau y tu allan i'r sir fod yn ddrutach na rhoi plant a phobl ifanc mewn lleoliad gofal maeth.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu'r ystod o ofal yn y sir, a oedd yn bwysig i'r plant, eu teuluoedd ac o bosibl yn ariannol.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwasanaethau meddygon teulu dan bwysau aruthrol, yn enwedig ers Covid-19 ond ni roddwyd gwybod am ddim problemau o ran plant a phobl ifanc yng ngofal yr awdurdod lleol yn cael gafael ar apwyntiadau. Byddai unrhyw broblemau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd monitro chwarterol ac yn cael eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen.
- Pe bai gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant am blentyn, byddai'r plentyn yn cael yr imiwneiddiadau angenrheidiol. Pe bai gan riant gyfrifoldeb rhiant ac nad oedd yn cydsynio, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r rhiant.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad o'r adran ac am eu gwaith caled mewn cyfnod heriol iawn.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a lefelau'r gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

5 Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer

Esboniodd Heddwyn Evans mai pwrpas yr adroddiad oedd i gyflwyno canfyddiadau Adroddiad Diweddaru ar Ansawdd Aer 2022, yn unol â Rhan IV Deddf Amgylchedd 1997 Rheoli Ansawdd Aer Lleol. O ran dyletswyddau monitro statudol a roddwyd ar Gyngor Sir Ceredigion, mae gofyniad i adrodd ar Nitrogen Deuocsid (NO_2) a Deunydd Gronynnol (PM_{10}) yn flynyddol. Mae llygryddion eraill a nodwyd yn y rheoliadau wedi eu heithrio o ofynion adrodd

mandadol oni bai fod tystiolaeth o broblem yn lleol fydd angen mynd i'r afael a ef. Yn sgil lleoliad gwledig Ceredigion a diffyg diwydiannau trwm nid oes gorfodiant o ran llygryddion sydd wedi eu heithrio o adrodd mandadol yn berthnasol i'r awdurdod. Trwy ddefnyddio tiwbiau tryledu, roedd 11 o safleoedd yn cael eu monitro ar hyn o bryd yng Ngheredigion ar gyfer NO_2. Pe bai lefelau NO_2 yn cyrraedd nod cymedrig blynyddol o 40µg/m3, byddai Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn cael ei datgan. O ran PM_{10}, gall achosi problemau iechyd niweidiol, fodd bynnag mae monitro PM_{10} wedi bod yn gyson dda yng Ngheredigion.

Oherwydd cyfyngiadau a blaenoriaethau gwahanol yn ystod pandemig Covid-19, rhoddwyd y gorau dros dro i samplu a dyna pam y ceir 6 mis o adrodd yn yr adroddiad. O safbwynt Sicrhau Ansawdd a Rheoli Ansawdd, defnyddiwyd Ffactorau Addasu Tuedd Tiwbiau Tryledu ar y daenlen a roddwyd gan DEFRA i addasu mesuriadau, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gyson ar draws y sir. Cyfeiriwyd at y tueddiadau mewn crynodiadau NO_2 cymedrig blynyddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o fonitro a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Amlygwyd y bu gostyngiad yn genedlaethol y llynedd oherwydd llai o draffig yn ystod y pandemig. Amlygwyd bod llygredd aer yng Ngheredigion yr ail isaf yng Nghymru.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Heddwyn Evans, Elis Gwyn a Carwen Evans. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Nodwyd nad oedd yn ofynnol i'r awdurdod lleol fonitro amonia na methan.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a ddylid monitro ym mhob tref yn y sir; eglurwyd bod swyddogion yn mynd ati i werthuso safleoedd i sicrhau bod yr ardaloedd mwyaf effeithiol yn cael eu mesur.
- O ran adnoddau, nodwyd nad oedd y tiwbiau tryledu yn ddrud, ond nid y gwaith dan sylw oedd y defnydd gorau o amser staff bob amser. Gan fod pob tref yn dref glyfar, awgrymwyd y gellid ystyried synwyryddion i ddarparu monitro dangosol wrth symud ymlaen.
- Mewn ymateb i sylwadau aelod, nodwyd bod camau deddfwriaethol priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â llygryddion ac wrth i risgiau a dealltwriaeth ddatblygu, bod addasiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth.

Amlygodd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfleu llwyddiant y sir i'r cyhoedd mewn datganiad i'r wasg.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad ac argymhellir i'r Cabinet y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i gyflwyno i DEFRA yn unol â gofynion statudol.

6 Blaenraglen Waith Ddrafft 2022-2023

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol perthnasol i drafod y Blaengynllun Gwaith ar 09.11.22.

- Cytunodd yr aelodau i drefnu cyfarfod arbennig ar 23.01.22. Byddai diweddariad ar Covid-19 yn cael ei roi ac mae CAMHS wedi'u gwahodd i fynychu'r cyfarfod.
- Diweddariad ar y 'Rhaglen Gydol Oed a Llesiant'
- Adroddiad ar Arolygiad o Safleoedd Bwyd (ar ôl Ebrill 2023)
- Diweddariad ar Ofal Cartref (Gwasanaethau Dementia/Cartrefi Gofal Preswyl) (Ebrill 2023)
- Diweddariad ar Wasanaethau Dydd yn y Sir (Adroddiad interim Ionawr 2023 / adroddiad llawn Ebrill 2023)
- Therapi Galwedigaethol yn rhoi gwaith ar gontract allanol – costau a goblygiadau costau

Eglurodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu wedi gwahodd aelodau'r pwyllgor i'w cyfarfod ar 08.12.22 i drafod adroddiad ar awtistiaeth a'r gwasanaethau sy'n ymwneud â hyn.

7 I gonsidro cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022.

Materion sy'n codi: Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 23 Ionawr 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____